CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION
CHWEFROR 2013

DYDDIAD	Nos Fercher, 20fed Chwefror
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**CAE'R GORS, RHOSGADFAN**
AELODAU'N BRESENNOL	Gwilym V.Thomas (Cad), Elwyn Jones, Tom Ellis, Elwyn Jones, Meurig Williams, Elin Evans, Michelle Williams, Nerys Evans, Gwilym L.Williams, Rhys Owen, Neal Williams, Jason Hunt, Aeron M.Jones
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams, Clerc

1.	**Croeso**
2.	**Ymddiheuriadau**
3.	**Datgan Buddiant** Dan faterion ariannol eitem 8, datganodd y canlynol eu bod yn llywodraethwyr ar fyrddau ysgolion Rhosgadfan a Rhostryfan: Neal Williams Michelle Williams Nerys Evans Jason Hunt Aeron M.Jones
4.	**Cadarnhau cofnodion** Cadarnhawyd fod cofnodion mis Ionawr yn gywir.
5.	**Materion i'w trafod:** a. MW – Rhes Ganol – lôn wedi'i malurio – clerc i gysylltu efo Tai Cymunedol b. RhO- tyllau ar y ffyrdd c. NE – mater cynllunio – dwy adwy wedi'u hagor yn Rhos Isaf, cais cynllunio i mewn ond does dim penderfyniad wedi'i wneud. Pasio hwn ymlaen i Aeron M.Jones i'w drafod efo'r swyddogion. Clerc i holi Idwal Williams ynglyn a'r datblygiad. d. GVT – dau dy yn Gwelfor yn wag ers deng mis. Un ers Hydref 2011, llall yn Tachwedd 2012. Tai Cymunedol. e. GVT – arwydd ger Bodfan ddim yn gweithio. f. GVT – bwlch yn y wal ar Allt Pen y Gwylwyr – clerc i anfon llythyr i Meirion Williams. g. Mynwent Cefnfaes – wedi cael sicrhad gan Carter Jones fod tir Gadlys bellach yn wag, a bod modd i ni barhau gyda'r pryniant. Wedi rhoi gwybod i'r cyfreithiwr. h. Lein Bryngwyn – cytunwyd i roi giat yn y ffens ger terfyn Coed y Brain a Cae Haidd – symud giat o Tyddyn Canol
6.	**Derbyn Adroddiadau** Lein Bryngwyn – talwyd rhan-daliad i I.T.Davies fel cytunwyd mis diwethaf

	- £12,000. Cyfarfod rhwng y clerc ac Alun Ffred Jones AC, swyddfa Plaid Cymru, dydd Gwener, 25ain Ionawr, 2013 – trafodwyd y canlynol: 1. **Llifogydd Rhostryfan** – eglurodd y clerc fod pobl yn cwyno nad oes unrhyw ddatblygiad ynglyn a'r grid a'r problemau ar Afon Gwyled – cytunodd Alun Ffred Jones i bwyso ar Ymgynghoriaeth Gwynedd i sefydlu beth yn union sydd angen ei wneud. Nododd fod problemau mewn sawl pentref arall, a'i fod yn sylweddoli fod y llifogydd ym mis Tachwedd wedi bod yn anghyffredin, a bod adroddiadau yn mynd i gymryd amser. 2. **Gadlys** – nododd y clerc fod sawl cwyn wedi dod i law am y safle, a bod angen i'r adran gynllunio/gorfodaeth gymryd sylw o'r mater. Addawodd AFJ y byddai'n cymryd golwg ar y lle, ac yn ystyried beth y gellir ei wneud. 3. **Problem cofeb ger Tan y Gaer, Rhosgadfan** – teimlai AFJ ein bod ni fel cyngor cymuned wedi gwneud yr hyn oll y gallem, ac y byddai yntau hefyd yn cysylltu gyda'r Goron. **Cyfarfod i drafod problem llifogydd/Afon Gwyled** rhwng y clerc, Mr.a Mrs.Melfyn Jones, Cynghorydd Gareth Roberts ac Emlyn a Huw Williams (swyddogion Ymgynghoriaeth Gwynedd) – swyddfeydd y cyngor, dydd Iau, 14eg Chwefror. Trafodwyd y broblem o'r grid ger cartref Melfyn a Glenda Jones. Cytunwyd mai'r 'walkway' ar y grid achosodd y broblem fwyaf ar Dachwedd 22ain y llynedd, ac mae'r swyddogion wedi cytuno i osod 'walkway' newydd ar y grid, fydd yn cynnwys 'hinge' fel y gellir ei godi a'i gadw ar un ochr o'r wal, fel y bydd modd i'r dwr lifo yn well drwy'r grid brasach. Cafwyd cais gan y clerc, Melfyn a Glenda i ail-osod y ddau grid arall i fyny'r afon. Nid oedd y swyddogion yn meddwl y byddai hynny'n bosib ar hyn o bryd, ond maent yn fodlon adolygu'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn ac adrodd yn ôl os bydd unrhyw ddatblygiadau. Cafwyd sicrhad hefyd y byddai'r swyddogion yn ymchwilio ymhellach i'r broblem o gerrig a'r cawellau o'r gabions sydd wedi'u golchi lawr yn y llifogydd. **Cyfarfod Pecynnu'r Profiad,** Antur Nantlle, 7fed Chwefror – Elwyn Jones a'r clerc wedi mynychu. Roedd y grwp wedi derbyn llythyr gan Dafydd Iwan, Cadeirydd PEG.	
7.	**Is-bwyllgorau**	
8.	**Materion Ariannol** Cyfri Cadw: Cyfri Siec: Taliadau: Cyflog/costau/ad-daliad Printerinks clerc – mis Chwefror Canolfan Bro Llanwnda – cost ystafell	 17,127.97 3328.97 572.73 12.00

	Wyn Williams	279.50

	Ystyriwyd yr holl geisiadau nawdd a ddaeth i law, a phenderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn:	
	SEFYDLIAD	NAWDD
	Treialon Cwn Defaid Llanllyfni	50.00
	Shelter Cymru	100.00
	Lleu	100.00
	Dawns i Bawb	50.00
	Theatr Bara Caws	100.00
	Cae Chwarae Rhosgadfan	500.00 + llythyr addewid i drafod eto yn ystod y flwyddyn
	Ysgol Rhosgadfan	1300.00
	Ysgol Rhostryfan	1300.00

9.	**Materion Cynllunio** C13/0093/24/LL – Camlan, Rhosgadfan – estyniad ar dalcen y ty – dim gwrthwynebiad C13/0077/24/LL – 8 Glanrhyd, Dinas – cais diwygiedig i adeiladu ty – dim gwrthwynebiad C12/1300/24/LL – Min Eifion, Rhos Isaf – dymchwel estyniad presennol a chodi estyniad deulawr ac unllawr ynghyd a mynediad gerbydol newydd a modurdy ar wahan – dim gwrthwynebiad
10.	**Gohebiaeth:** a. Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol – daeth i ben 31.01.13 b. Ymgynghoriad Cyngor Iechyd Cymunedol – crynodeb o'r ymatebion c. Taith Dros Fywyd – Sefydliad Aren Cymru d. Adran Rheoleiddio – cynnal a chadw hawliau tramwy e. Mantell Gwynedd – Cronfa Buddsoddi Cymunedol
11.	**Materion mis nesa** a. EE – Ty Rhos – damwain – arwydd yn nodi cornel b. NW – arwyddion solars c. MW – giat steshion Rhos d. MW – cynllun safe roads in the community – palmant rhwng Jericho a'r neuadd (Dafydd Wyn Williams) e. AMJ – tir ger Mynwent Cefnfaes f. Polyn BT – Rhos Isaf g. ElJ – llwchfeydd eira – cyngor ddim wedi dod yno o gwbwl. Oes gan y cyngor cymuned hawl i glirio lonydd? h. GLW – Pont Caer Moel – gwrych i fyny at Dolellog